


Gweithgaredd 2

Un i ti, a thri i mi



Nod: Sylweddoli nad yw cyflenwad bwyd y byd wedi ei rannu'n gyfartal, a chyflwyno'r cysyniadau o degwch a chyfiawnder mewn cyd-destun byd eang. **Amser:** 30-40 munud.

Oedran: 5+. **Yr hyn sydd ei angen arnoch:** Platiau papur, glud, pennau lliw, defnydd a phapur sgrap, lluniau o fwyd a diod, pecyn o reis; bwrdd 'Gwledd' (wedi ei addurno) a naw neu ddeg cadair ar gyfer y plant (traean o'r dosbarth); *Tocynnau bwyd* (gweler y diagram ar y CD, un ar gyfer pob plentyn); blwch (i roi'r holl docynnau prydau ynddo).

Beth i'w wneud

Dywedwch wrth y plant eu bod yn mynd i esgus eu bod mewn parti bwyd. Rhannwch y platiau papur allan.

GWLEDD

Rhowch gyfle iddynt 'greu' gwledd ardderchog gan ddefnyddio pennau lliwgar, lluniau allan o gylchgronau a defnyddiau sgrap fel eu bod yn llenwi'r plât yn gyfan gwbl. Gofynnwch iddynt ysgrifennu eu henwau ar gefn y plât.

REIS

Nesaf, gofynnwch iddynt baratoi pryd arall, y tro hwn gydag ond ychydig iawn o ronynnau reis wedi eu gludo i'w plât. Rhaid i bawb ysgrifennu eu henw y tu ôl i'r plât unwaith yn rhagor.

Gofynnwch i'r dosbarth osod eu platiau GWLEDD ar un bwrdd a'u platiau REIS ar fwrdd arall. Esboniwch mai dim ond rhai ohonynt fydd yn mynd i'r wledd.

Penodwch ddau o ddisgyblion y dosbarth yn weinyddion – un i weini yn y WLEDD, a'r llall i 'weini' y platiau REIS. Gwahoddwch weddill y dosbarth i ddewis tocyn pryd allan o'r boc, fel mewn twb lwcus.

Mae'n rhaid i weinydd y WLEDD dywys y traean o'r disgyblion sydd wedi dewis tocyn GWLEDD at y platiau gwledd. Dylai'r disgyblion nodi eu platiau gwledd eu hunain, ac wedyn aros i weinydd y WLEDD eu rhoi iddynt gan foesymgrymu, cyn eu tywys at fwrdd y WLEDD, sydd wedi ei addurno.

Gweler
ADNODDAU
CD ar gyfer
tocynnau bwyd

Ffynhonnell: LIFT OFF, *The Right Start*, Un i ti, a thri i mi.

Dylai'r gweinydd REIS orchymyn y gweddill, sef dwy ran o dair o'r disgyblion, at y bwrdd arall, a dweud wrthynt am gasglu eu platiau REIS eu hunain. Dylent gael eu cyfeirio at gornel boblog o'r ystafell a chael eu gorchymyn i sefyll wrth fwyta eu pryd. Nid ydynt yn cael eu trin â pharch o gwbl.

Nesaf, dylai pob un o'r plant (ar wahân i'r gweinyddion) siarad â'u cymdogion gan drafod yr hyn maent yn ei fwyta, a disgrifio eu prydau yn fanwl tra'n esgus ei fwyta.

Trafodaeth

Yn dilyn 'y pryd' gofynnwch i bob un o'r plant am eu barn ar y gweithgaredd.

- Sut deimlad oedd bod ymhlith y traean a aeth i'r wledd a chael digon i'w fwyta?
- A sut oedd y gweddill yn teimlo, y rhai a gafodd ond ychydig o reis?

Esboniwch y dylai fod digon o fwyd yn y byd i'w rannu rhwng pawb. Fodd bynnag, yn union fel roedd hi yn y wledd hon, nid yw bwyd y byd yn cael ei rannu'n deg. Yn ôl Sefydliad lechyd y Byd, mae traean o bobl y byd heddiw yn cael digon i'w fwyta, neu hyd yn oed yn bwytia gormod, ond nid yw dwy ran o dair o bobl y byd yn cael digon. Gofynnwch i'r plant beth ddylai gael ei wneud ynghylch hyn yn eu barn nhw.

